OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 210 (Cy.36)

CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

Gorchymyn Caniatâd Cynllunio (Tynnu'n ôl Orchymyn Datblygu neu Orchymyn Datblygu Lleol) (Iawndal) (Cymru) 2012

Gwnaed - - - -	*27 Ionawr 2012*
Y n dod i rym - -	*31 Ionawr 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 203(1) a (6) o Ddeddf Cynllunio 2008(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Yn unol ag adran 203(9) o'r Ddeddf honno gosodwyd drafft o'r Gorchymyn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chymeradwywyd ef ganddo drwy benderfyniad.

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Caniatâd Cynllunio (Tynnu'n ôl Orchymyn Datblygu neu Orchymyn Datblygu Lleol) (Iawndal) (Cymru) 2012.

(2) Daw i rym ar 31 Ionawr 2012.

(3) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y Ddeddf" ("the Act") yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**2**).

Darpariaethau mewn perthynas â Chymru

2. Yn adran 108(**3**). o'r Ddeddf (iawndal am wrthod neu roi caniatâd cynllunio amodol a roddwyd gynt drwy orchymyn datblygu neu orchymyn datblygu lleol)—

(a) yn is-adran (2A)(a) hepgorer "in England";

(b) yn is-adran (2A)(b) hepgorer "in England";

(c) yn is-adran (3C)(a) hepgorer "in England";

(ch) yn is-adran (3D) hepgorer paragraff (a);

(**1**) 2008 p. 29.
(**2**) 1990 p. 8.
(**3**) Diwygiwyd adran 108 gan adran 40 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p. 5) a chan adran 189 o Ddeddf Cynllunio 2008 (p. 29). Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(d) yn is-adran (6), ar ôl "Secretary of State", mewnosoder "in relation to England and the Welsh Ministers in relation to Wales,".

John Griffiths
Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, un o Weinidogion Cymru

27 Ionawr 2012